# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER 1AF MEHEFIN 2016 AM 2.00 P.M.

---

PRESENNOL:

Y Cynghorydd K. V. Reynolds – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Forehead (Adnoddau Dynol a Llywodraethu/Rheolwr Busnes), N. George (Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden), D.T. Hardacre (Rheoli Perfformiad ac Asedau), D. Havard (Addysg a Dysgu Gydol Oes), K. James (Adfywio, Cynllunio a Datblygu Cynaliadwy), B. Jones (Gwasanaethau Corfforaethol), D. Poole (Tai), T.J. Williams (Priffyrdd, Trafnidiaeth a Pheirianneg) a R. Woodyatt (Gwasanaethau Cymdeithasol).

Ynghyd â:

C. Burns (Prif Weithredwr Interim), C. Harrhy (Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau) a N. Scammel (Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol ac Adran 151).

Hefyd yn bresennol:

D. Whetter (Pennaeth Adfywio Interim), K. Williams (Rheolwr Tai y Sector Preifat), S. Couzens (Prif Swyddog Tai), R. Hartshorn (Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol).

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar ddechrau'r cyfarfod nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. CABINET – 18FED MAI 2016

PENDERFYNWYD y dylai cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18fed Mai 2016 (rhif cofnodion 1 i 4) gael eu cymeradwyo a'u harwyddo fel cofnod cywir.

## 4. DYRANIAD CYFALAF YR IS-ADRAN ADFYWIO A CHYNLLUNIO 2016/17

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer dyraniad cyllideb cyfalaf 2016/17 i'r Is-adran Adfywio a Chynllunio yn unol â gofynion 4.8.2 a thabl 10 Cynigion Cyllideb 2016/17 a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2016/2021 a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 24ain Chwefror 2016. Yn ogystal, gofynnwyd i'r Cabinet nodi'r Adroddiad Atodol a gyhoeddwyd a ddosbarthwyd ar 1af Mehefin 2016.

Canolbwyntiodd y prif adroddiad ar y dyraniadau cyfalaf dros dro a'r prosiectau y byddai cyllideb cyfalaf ar gyfer 2016/17 yr Is-adran Adfywio a Chynllunio yn eu hariannu yn ystod y flwyddyn ariannol. Fel y cynghorir gan y Pennaeth Cyllid Interim, gofynnwyd am gymeradwyaeth y Cabinet er mwyn rhyddhau'r gyllideb i'r maes gwasanaeth. Rhoddodd yr Adroddiad Atodol wybodaeth ychwanegol ac eglurhad pellach i'r Cabinet am brosiectau penodol, megis Adfywio Trefol, fel yr amlinellwyd yn y prif Adroddiad Cabinet.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi bod manylion adolygiad y Grantiau Cymorth Busnes a'r Grantiau Masnachol a Diwydiannol a'r posibilrwydd o'u cyfuno yn grant Twf Busnesau wedi'u tynnu o'r prif adroddiad Cabinet a byddai hyn yn destun adroddiad ar wahân.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai argymhelliad yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Trwy godi llaw, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodwyd ym mhrif Adroddiad ac Adroddiad Atodol y Swyddog (ac Adroddiad Cyllideb y Cyngor): -

(i) Y cytunir dyraniad cyfalaf 2016/17 o £217,000 i Raglen Cynlluniau Amgylcheddol Cefn Gwlad;

(ii) Y cytunir dyraniad cyfalaf 2016/17 o £50,000 i'r Cynllun Grantiau Masnachol a Diwydiannol Adfywio Trefol;

(iii) Y cytunir dyraniad cyfalaf 2016/17 o £30,000 i brosiectau Canol Trefi Adfywio Trefol.

## 5. DARPARU LLETY Â CHYMORTH DROS DRO YCHWANEGOL – LLYS TABERNACLE, RHYMNI

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet i gychwyn trefniadau partneriaeth â Chymdeithas Tai Wales and West parthed defnyddio ei heiddo yn Llys Tabernacle, Rhymni at ddibenion llety â chymorth ar gyfer pobl sengl, ddigartref.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ddarparu llety argyfwng i bobl sy'n cael eu hadnabod fel pobl ddigartref ac sydd ag angen blaenoriaethol. O ganlyniad i ddiffyg llety â chymorth, hyd yma, mae nifer o bobl sengl, ddigartref, wedi cael eu lleoli mewn llety Gwely a Brecwast o fewn y fwrdeistref sirol a'r tu allan iddi.

Nododd aelodau bod yr Awdurdod, ers mis Tachwedd 2014, wedi gwneud ymdrech cydwybodol i leihau ei ddibyniaeth ar lety Gwely a Brecwast ar gyfer llety argyfwng. Cafodd hyn ei wneud, yn bennaf, trwy greu a defnyddio llety â chymorth ychwanegol yn Nhŷ Croeso, Trecelyn a Maes Y Derwen, Tredomen sydd, gyda'i gilydd, wedi darparu 28 o ystafelloedd at ddibenion llety argyfwng ar gyfer pobl sengl. Mae darpariaeth o'r fath yn rhoi cymorth mwy i bobl ddigartref tra, ar yr un pryd, yn rhoi sicrwydd i'r cymunedau lle y mae'r llety o'r math wedi'i leoli parthed unrhyw bryderon diogelwch sydd ganddynt.

Ar hyn o bryd, mae gan yr Awdurdod ddefnydd o 55 o ystafelloedd o fewn 4 uned lety sy'n darparu cymorth 24 awr. Yr oedd un o'r unedau hyn, sef The Countryman, Bedwellty, sy'n darparu ar gyfer pobl 16 i 24 oed, yn destun cyd-arolwg gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi,

Ofsted (Gofal Cymdeithasol) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn ddiweddar. Yn anffodus, mae eu canfyddiadau yn awgrymu nad yw'r eiddo bellach yn addas ar gyfer lleoli pobl ifainc. Mae hefyd bryderon ynghylch cyflwr corfforol yr eiddo a fydd, y teimlir, yn galw am fuddsoddi sylweddol gan ei berchnogion preifat er mwyn i'r eiddo gael ei ddefnyddio yn realistig fel llety argyfwng tymor canolig i hir dymor sy'n cydymffurfio â'r statudau perthnasol. Am y rhesymau hyn, mae Swyddogion yn teimlo y dylid ystyried cyfleuster amgen sydd mewn lleoliad gwell.

I'r diben hwn, cydnabuwyd bloc o 13 o fflatiau sy'n unedau annibynnol, sydd wedi'u lleoli yn Llys Tabernacle, Stryd yr Eglwys, Rhymni, sy'n eiddo i Gymdeithas Tai Wales and West, fel eiddo sy'n addas ar gyfer ei addasu yn gynllun tai â chymorth 24 awr gan ddarparu 12 o ystafelloedd. Mae'r perchnogion eisoes wedi derbyn Caniatâd Cynllunio ar gyfer prosiect o'r math a gaiff ei reoli gan y mudiad cymorth tai sector gwirfoddol, Solas. Ar hyn o bryd, mae Solas yn rheoli The Countryman a Maes Y Derwen ac mae ganddynt hanes profedig yn lleol o gyflenwi cymorth tai o safon uchel.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai argymhelliad yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Trwy godi llaw, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodwyd yn Adroddiad y Swyddog, y cytunir i'r Awdurdod fynd i bartneriaeth â Chymdeithas Tai Wales and West, gan obeithio defnyddio Llys Tabernacle fel Prosiect Tai â Chymorth yn lle The Countryman.

## 6. STRATEGAETH CYFRANOGIAD TENANTIAID 2016 – 19

Amlinellodd yr adroddiad a ystyriwyd a gymeradwywyd gan Dasglu Cartrefi Caerffili ar 19eg Mai 2016 ddrafft Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid (2016–19) a gofynnodd am gymeradwyaeth y Cabinet.

Cynghorwyd y Cabinet bod Strategaeth 2016-19 yn diffinio nod (y rheswm dros Gyfranogiad Tenantiaid) ac yn ymateb i heriau a chyfleoedd y byd y mae Cartrefi Caerffili yn gweithredu ynddo. Datblygwyd y Strategaeth drwy ymgynghori â thenantiaid a staff (trwy gynnal nifer o weithdai a sesiynau adborth).

Nododd aelodau nod y Strategaeth, ei 4 Amcan Allweddol, ynghyd â gwybodaeth am sut y cafodd ei datblygu. Cyfeiriodd y Strategaeth hefyd at ddatblygu Cynllun Gweithredu i gefnogi cyflenwi'r amcanion strategol dros y 3 blynedd nesaf.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai argymhelliad yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Trwy godi llaw, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodwyd yn Adroddiad y Swyddog y dylai Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid 2016-2019, fel y cyflwynwyd o dan Atodiad 1, gael ei chymeradwyo.

## 7. ATGYWEIRIADAU TAI – ADOLYGIAD O'R GOSTYNGIAD MEWN AILGODI TÂL

Yn dilyn adroddiad i'r Cabinet ar 18fed Mawrth 2015, cyflwynwyd cyfnod treialu i gynnig gostyngiad o 25% am ad-dalu anfonebau ar gyfer atgyweiriadau ailgodi tâl a gwaith diwedd tenantiaeth yn brydlon. Yn dilyn arolygiad ar effaith lefelau incwm ac adennill a gynhaliwyd yn ystod y treial yn ddiweddar, gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth yr Aelodau i dynnu yn ôl y cynnig o ostyngiad i denantiaid am dalu'n brydlon.

Nododd y Cabinet mai nod y Polisi Atgyweiriadau Ailgodi Tâl oedd cyfrannu at gynhaliaeth effeithlon ac effeithiol o stoc tai y Cyngor. Ar gais y Grŵp Atgyweiriadau a Gwelliannau, cyflwynwyd gostyngiad o 25% i denantiaid am dalu anfonebau o fewn 35 diwrnod o'u derbyn am gyfnod treialu i geisio annog mwy o denantiaid i dalu. Os oedd hyn yn llwyddiannus, byddai'n cynyddu incwm i'r Cyfrif Refeniw Tai, er bod y gostyngiad yn golygu adennill llai o'r

costau am gynnal y gwaith atgyweirio. Mae'r cyfnod treialu wedi bod ar waith am gyfnod o ryw 10 mis.

Tra bod tuedd cynyddol o ran casgliadau ar gyfer atgyweiriadau ailgodi tâl a gwaith diwedd tenantiaeth dros y 4 blynedd flaenorol, nid yw'r treial o gynnig gostyngiad o 25% am dalu'n brydlon, yn ei hun, wedi arwain at gynnydd sylweddol o ran nifer na maint y taliadau a dderbyniwyd. Nododd aelodau pe bai cyfnod y treial yn cael ei ymestyn, byddai hyn yn gofyn am wario cyfalaf ar gyfer gwelliannau TG, i sicrhau y gallai'r broses gael ei gweinyddu yn effeithiol a byddai'r gostyngiad yn cyfateb i gymhorthdal i denantiaid o'r Cyfrif Refeniw Tai.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai argymhelliad yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Trwy godi llaw, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodwyd yn Adroddiad y Swyddog y dylai'r treial o gynnig gostyngiad o 25% i denantiaid am dalu o fewn 35 diwrnod o dderbyn anfoneb am atgyweiriadau ailgodi tâl a diwedd tenantiaeth ddod i ben.

**8. DYRANIAD CYFALAF GRANTIAU SECTOR GWIRFODDOL 2016/17**

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer adroddiad dyrannu cyllideb cyfalaf 2016/17 i'r Gronfa Grantiau Sector Gwirfoddol, yn unol â gofynion adran 4.8.2 a thabl 10 Cynigion Cyllideb 2016/17 a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2016/2021 a ystyriwyd gan y Cyngor ar 24ain Chwefror 2016.

Mae adroddiad Cynigion Cyllideb 2016/17 a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2016/2021 (y cyfeirir ato fel yr Adroddiad Cyllideb o hyn ymlaen) yn rhoi manylion am y dyraniad cyllid cyfalaf i bob maes gwasanaeth ar gyfer 2016/17. Yr oedd hefyd yn rhoi dyraniad dangosol ar gyfer 2017/18 a 2018/19. Amlinellodd adran 4.8.2 yr Adroddiad Cyllideb y gofyniad am adolygu pellach a/neu achosion busnes i gael eu cyflwyno i'r Cabinet er mwyn cyfiawnhau'r dyraniadau i 5 maes gwasanaeth o fewn yr Is-adran Adfywio a Chynllunio. Ers i Adroddiad Cyllideb y 24ain Chwefror gael ei gymeradwyo, mae cyfrifoldeb dros gyllideb y Grantiau Cyfalaf Sector Gwirfoddol wedi'i drosglwyddo o Adfywio a Chynllunio i Ddiogelu'r Cyhoedd, gan fod yn weithredol o 1af Ebrill 2016.

Nododd y Cabinet, yn dilyn ymgynghori â'r Pennaeth Cyllid Interim, fod yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth cyllid cyfalaf ar gyfer 2016/17 yn unig. Ystyrir dyraniadau cyllideb cyfalaf dangosol y blynyddoedd dilynol ar sail flynyddol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai argymhelliad yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Trwy godi llaw, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodir yn Adroddiad y Swyddog y dylai dyraniad cyfalaf 2016/17 o £170,000 i Gynllun Grantiau Cyfalaf y Sector Gwirfoddol gael ei gymeradwyo.

Caewyd y cyfarfod am 2.39pm

Cymeradwywyd ac arwyddwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn ystod y cyfarfod a gynhelir ar 29ain Mehefin 2016.

________________________

CADEIRYDD